**Tasg 2**

# Dweud eich barn

1. Beth yw ffurf y testun ar y brif sgrin?

traethawd ☐ sgript ar gyfer rhaglen deledu ☐

erthygl ☐ e-bost ☐

2. Rhowch **dri** rheswm dros eich ateb.

3. Beth yw **prif** bwrpas y darn?

hysbysebu ☐ canmol ☐

rhoi gwybodaeth ☐ mynegi barn ☐

4. Mae'r arddull yn:

academaidd ☐ tafodieithol ☐

anffurfiol ☐ barddonol ☐

5. Meddyliwch am deitl da i'r darn.

6. Beth yw'r ddwy farn sy'n cael eu mynegi yn y darn?

7. Sylwch ar yr hyn ddywedodd un o'r disgyblion:

**Mae angen i S4C geisio creu rhaglenni sy'n apelio at fwy o bobl. Mae gormod o raglenni wedi cael eu creu ar gyfer pobl ganol oed, a does dim digon ar gyfer pobl ifanc.**

a. Ydych chi'n cytuno gyda'r farn hon?
Rhowch resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

b. Sut gallai S4C ddenu mwy o wylwyr, yn eich barn chi?
Trafodwch hyn mewn grŵp.

c. Ysgrifennwch lythyr i'r papur bro yn cynnwys eich syniadau ar sut y gallai S4C ehangu ei hapêl.

Gallech chi:

- gyflwyno'ch hun yn fyr, gan nodi'ch oed
- sôn am raglenni S4C yn gyffredinol – pa fath ac at bwy maen nhw'n debygol o apelio
- mynegi'ch barn chi am y rhaglenni
- cyflwyno'ch syniadau ynglŷn ag ehangu apêl S4C
- cloi'r llythyr.